# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 18 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(255)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 6 chwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 3, 5 a 6 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 7 eu grwpio. Atebwyd cwestiwn 10 gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Pwynt o Drefn**
Cododd Kirsty Williams bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog  12.16 (viii) yn gofyn am eglurhad ynghylch gwybodaeth a roddwyd gan y Prif Weinidog mewn ateb yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 17 Mawrth. Dyfarnodd y Llywydd nad oedd hyn yn bwynt o drefn ond gwahoddodd y Prif Weinidog i ymateb.

## 3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.01

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**
**NDM5712**

**Mick Antoniw (Pontypridd)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**Nick Ramsay (Mynwy)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod technoleg ar-lein ynghyd â hysbysebu dwys wedi ysgogi twf hapchwarae yng Nghymru ac yn nodi:

a) bod hapchware ar gael i holl boblogaeth Cymru 24/7;

b) y gall hapchwarae ddod yn gaethiwed sy'n niweidiol yn gymdeithasol, gan gyfrannu at dlodi, iechyd a phroblemau cymdeithasol;

c) bod adnabod caethiwed a darparu cymorth yn gynnar yn hanfodol er mwyn atal pobl rhag dod yn gaeth i hapchwarae;

d) bod y twf mewn hapchwarae ar-lein a pheiriannau hapchwarae ods sefydlog wedi troi hapchwarae yn y DU i mewn i ddiwydiant gwerth biliynau o bunnoedd; ac

e) bod amgylchedd rheoleiddio hapchwarae yn gymharol ysgafn.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu a gweithredu strategaeth i fynd i'r afael â'r canlyniadau cymdeithasol ac iechyd sy'n deillio o hapchwarae;

b) ymgysylltu â Llywodraeth y DU i drafod datganoli rhagor o bwerau dros drwyddedu peiriannau hapchwarae; ac

c) ymgysylltu â'r diwydiant hapchwarae a'r Ymddiriedolaeth Hapchwarae Cyfrifol i sicrhau bod cyfran briodol o'r cyllid yn cael ei gwario yng Nghymru i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â bod yn gaeth i hapchwarae.
Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 14 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5728**

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r penderfyniad diweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i atal gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol a gwasanaethau clinigol eraill i fenywod yn Ysbyty Glan Clwyd; a

2. Yn galw ar y bwrdd iechyd i sicrhau parhad gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol a gwasanaethau clinigol eraill i fenywod ym mhob un o'r tri o ysbytai cyffredinol dosbarth yng ngogledd Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 25 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.02

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5727 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod un ym mhob tri o blant yng Nghymru yn byw o dan y llinell dlodi.

2. Yn nodi bod gan Gymru y lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf yn y DU, sy'n cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau difreintiedig.

3. Yn nodi bod cyfraddau gordewdra ymhlith plant, cyfraddau ysmygu ymhlith menywod ifanc a chyfraddau yfed alcohol ymysg pobl ifanc yn waeth yng Nghymru nag yn Lloegr.

4. Yn nodi bod pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru yn yfed mwy o alcohol bob wythnos nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.

5. Yn croesawu'r cytundeb cyllidebol diweddar rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru a fydd yn cynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion i £1,150 fesul disgybl, yn ymestyn y grant i blant o dan bump oed, ac yn cyflwyno tocynnau rhatach i deithwyr ifanc.

6. Yn credu y dylai pobl gael eu grymuso i fyw'r bywyd y maent am ei fyw ac nad oes lle i laesu dwylo yn y frwydr i sicrhau cydraddoldeb i bawb.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ddarparu mynediad at y fenter Dechrau'n Deg i bob plentyn yng Nghymru ar sail angen yn hytrach na lleoliad daearyddol;

b) gwella'r system o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a sefydlu academi arweinyddiaeth mewn addysg i Gymru;

c) diwygio fframwaith Estyn i sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar addysg a bwyta'n iach ac ymarfer corff mewn ysgolion;

d) canolbwyntio mwy o adnoddau ar annog pobl ifanc i roi'r gorau i ysmygu a mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon; ac

e) sicrhau bod pob prentis yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf sy'n rhoi cymwysterau cludadwy iddynt.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 46 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi'r cynnydd a ragwelir yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi i 3.4 miliwn ar draws y DU erbyn 2020 ac yn nodi hefyd effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cynnydd mewn lefelau tlodi plant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 16 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 5.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 29 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Yn is-bwynt 7b), dileu 'sefydlu academi arweinyddiaeth mewn addysg i Gymru' a rhoi yn ei le 'sicrhau ei bod yn symud ymlaen yn effeithlon o'r ddarpariaeth newydd o addysg gychwynnol i athrawon'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 4 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

sicrhau bod ysgolion yn dangos tystiolaeth eu bod yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i helpu disgyblion o gartrefi incwm isel.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 1 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5727 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod un ym mhob tri o blant yng Nghymru yn byw o dan y llinell dlodi.

2. Yn nodi bod gan Gymru y lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf yn y DU, sy'n cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau difreintiedig.

3. Yn nodi bod cyfraddau gordewdra ymhlith plant, cyfraddau ysmygu ymhlith menywod ifanc a chyfraddau yfed alcohol ymysg pobl ifanc yn waeth yng Nghymru nag yn Lloegr.

4. Yn nodi bod pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru yn yfed mwy o alcohol bob wythnos nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.

5. Yn nodi'r cynnydd a ragwelir yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi i 3.4 miliwn ar draws y DU erbyn 2020 ac yn nodi hefyd effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cynnydd mewn lefelau tlodi plant.

6. Yn croesawu'r cytundeb cyllidebol diweddar rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru a fydd yn cynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion i £1,150 fesul disgybl, yn ymestyn y grant i blant o dan bump oed, ac yn cyflwyno tocynnau rhatach i deithwyr ifanc.

7. Yn credu y dylai pobl gael eu grymuso i fyw'r bywyd y maent am ei fyw ac nad oes lle i laesu dwylo yn y frwydr i sicrhau cydraddoldeb i bawb.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ddarparu mynediad at y fenter Dechrau'n Deg i bob plentyn yng Nghymru ar sail angen yn hytrach na lleoliad daearyddol;

b) gwella'r system o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a sicrhau ei bod yn symud ymlaen yn effeithlon o'r ddarpariaeth newydd o addysg gychwynnol i athrawon;

c) diwygio fframwaith Estyn i sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar addysg a bwyta'n iach ac ymarfer corff mewn ysgolion;

d) canolbwyntio mwy o adnoddau ar annog pobl ifanc i roi'r gorau i ysmygu a mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon; ac

e) sicrhau bod pob prentis yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf sy'n rhoi cymwysterau cludadwy iddynt.

f) sicrhau bod ysgolion yn dangos tystiolaeth eu bod yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i helpu disgyblion o gartrefi incwm isel

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 0 | 8 | 42 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.57

## 7 Dadl Fer - Gohiriwyd

Daeth y cyfarfod i ben am 18.00

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2015**